Y SENEDD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 14.15 ar 19 Tachwedd 2025, yn y Brif Neuadd, Adeilad Gwleidyddiaeth Ryngwladol.

Aelodau â phleidlais:	Yr Athro Jon Timmis, Is-Ganghellor; Dr Otar Akanyeti; yr Athro Iain Barber Dirprwy Is-Ganghellor (Gwyddorau); Mr Tom Bates; yr Athro Hazel Davey; yr Athro Sarah Davies; yr Athro Andy Evans; Dr Patrick Finney, Dirprwy Is-Ganghellor (Dyniaethau); Mr Jonathan Fry, Cadeirydd Cangen Aberystwyth o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol; Millie Hackett, Llywydd Undeb Aber; Nanw Hampson, Llywydd UMCA; yr Athro Angela Hatton, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi); yr Athro Mererid Hopwood; Dr Aloysius Igboekwu; yr Athro Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr); yr Athro Louise Marshall; Dr Julie Mathias; Esperanza Monnier, Swyddog Materion Academaidd Undeb Aberystwyth; Ms Jen Phipps; Dr Alexander Pitchford; Ms Jackie Sayce; yr Athro Phillipp Schofield; Dr Alistair Shepherd.
Aelodau heb bleidlais:	Yr Athro Homagni Choudhury, Mr Prysor Davies; yr Athro Engobo Emeseh; Dr Gwion Evans; yr Athro John Gough; Dr Joe Ironside, Dr Thomas Jansen; Dr Anoush Simon; Dr Steve Thompson.
Yn gweinyddu:	Mrs Kim Bradick, Dirprwy Gofrestrydd (Ysgrifennydd); Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Ms Lliwen Jones, Cyfieithydd; Dr Helen Miles, yn lle'r Cyfarwyddwr Rhagoriaeth ac Effaith Ymchwil.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth: Dr Hanna Binks; yr Athro Iain Donnison; Dr Ffion Jones; Dr Kim Knowles; Dr Alex Mangold; Mr Ian Munton, Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Fyfyrwyr; yr Athro Charles Musselwhite; Dr Samuel Raybone; Dr Gwawr Taylor, Dr Lucy Trotter, yr Athro Catrin Webster; yr Athro Reyer Zwiggelaar.

---

1. CROESO

Estynnwyd croeso cynnes i'r aelodau newydd o'r Senedd, sef Millie Hackett, Nanw Hampson, ac Esperanza Monnier o Undeb Aber, a hefyd y Penaethiaid Adrannau canlynol a oedd yn bresennol yn eu cyfarfod cyntaf o'r Senedd fel aelodau heb bleidlais: yr Athro Homagni Choudhury, yr Athro Engobo Emeseh a Dr Joe Ironside.

2. GWRTHDARO BUDDIANNAU

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

3. COFNODION CYFARFODYDD BLAENOROL

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18/06/2025 (SEN2526-003).

PENDERFYNWYD

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Senedd, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (SEN2526-004).

5. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR

DERBYNIWYD

Adroddiad yr Is-Ganghellor (SEN2526-005)

NODWYD

Bod dwy ran i'r adroddiad: adroddiad ar y prif bwyntiau a diweddariad ar ddenu myfyrwyr. Nodwyd bod llywodraeth y DU wedi dweud y byddai'n codi ffioedd dysgu yn unol â chwyddiant ac roedd Llywodraeth Cymru hithau hefyd wedi cadarnhau y byddai hynny'n digwydd y flwyddyn nesaf; roedd Medr hefyd wrthi'n ymgynghori â'r sector ar system reoleiddio newydd, gan gynnwys amodau cofrestru a chyllido. Penderfynwyd y byddai'r newyddion am y meysydd sydd dan oruchwyliaeth y Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi) a'r Dirprwy Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr), a ddarparwyd gynt yn rhan o adroddiad yr Is-Ganghellor, bellach yn mynd i gael eu darparu fel adroddiadau o dan eu penawdau perthnasol ar yr agenda.

6. MATERION YMCHWIL

DERBYNIWYD

Adroddiad y Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi) (SEN2526-006)

NODWYD

Tynnodd y Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi) sylw at yr ystod eang o weithgareddau ymchwil ar draws y sefydliad. Gwnaed ychydig mwy o gynigion ers y

flwyddyn gynt; roedd mwy o hyfforddiant a chefnogaeth yn cael eu darparu i gynorthwyo staff yn y maes hwn. Anogodd y Dirprwy Is-Ganghellor aelodau'r Senedd i gysylltu â hi'n uniongyrchol ag awgrymiadau am wybodaeth arall a allai fod yn ddefnyddiol yn ei hadroddiad yn y dyfodol.

7. Y PWYLLGOR YMCHWIL AC ARLOESI

DERBYNIWYD

1. Adroddiad gan y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi (SEN2526-007)

2. Cylch Gorchwyl (SEN2526-008)

3. Adroddiad Blynyddol ar Foeseg Ymchwil (SEN2324-009)

4. Datganiad Blynyddol ar Uniondeb (SEN2526-010)

NODWYD

5. Cyflwynwyd cylchoedd gorchwyl wedi'u diweddaru; roeddent wedi'u datblygu i gyd-fynd â chynllun ymchwil y brifysgol a, thrwy gynnwys arweinwyr y themâu ymchwil ar y pwyllgor, fe geid safbwyntiau newydd ar sut roedd y pwyllgor hwn yn gweithio.

6. Roedd yr Adroddiad Blynyddol ar Foeseg Ymchwil a'r Datganiad Blynyddol ar Uniondeb wedi'u cyflwyno i Weithrediaeth y Brifysgol a byddent yn mynd ymlaen i'r Cyngor yr wythnos ganlynol.

CYMERADWYWYD

7. Cymeradwyo cylch gorchwyl y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi. [**GWEITHREDU:** y Dirprwy Gofrestrydd (Ysgrifennydd i'r Senedd)]

ARGYMHELLWYD

8. Argymell i'r Cyngor yr Adroddiad Blynyddol ar Foeseg Ymchwil. [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg]

9. Argymell i'r Cyngor adroddiad y Datganiad Blynyddol ar Uniondeb. [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg]

8. MATERION ADDYSG A PHROFIAD Y MYFYRWYR

DERBYNIWYD

1. Adroddiad y Dirprwy Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr) (SEN2526-011)

2. Rheoliadau ailsefyll (SEN2526-012)

3. Datganiad Sicrhau Ansawdd 2025 (SEN2526-013)

NODWYD

4. Tynnodd y Dirprwy Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr) sylw at yr ystod eang o weithgareddau Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr ar draws y sefydliad, gan gynnwys y gwaith ar nodweddion graddedigion a'r ymgynghoriad a gynhelir gan Medr ar hyn o bryd. Y Dirprwy Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr) ac Ysgrifennydd y Brifysgol oedd yn arwain ar ymateb y brifysgol a byddent yn mynd i ddigwyddiad cenedlaethol am yr ymgynghoriad ddiwedd y mis; gwahoddwyd aelodau'r Senedd i anfon unrhyw sylwadau at y Dirprwy Is-Ganghellor.

5. Rhoddwyd gwybod yn ffurfiol i'r sefydliad y byddai'r Adolygiad Gwella Ansawdd nesaf, a gynhelir gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, yn digwydd yn ystod sesiwn 2027/28.

6. Roedd newidiadau i'r Rheoliadau Ailsefyll wedi'u cynnig ac fe'u hamlinellwyd yn y papur i'w trafod. Roedd y cynigion yn cynnwys cael gwared ar y ffi ailsefyll a'r cap ar y marc ailsefyll (40 ar y lefel israddedig a 50 i fodiwlau cyrsiau uwchraddedig a ddysgir); roedd y diwygiadau eraill yn cynnwys gosod terfyn amser ar gwblhau Rhan Un i fyfyrwyr amser-llawn, sef o fewn dwy flynedd, a Rhan Dau o fewn tair blynedd, neu hyd y cynllun ynghyd â dim mwy na dwy flynedd, sy'n adlewyrchu'r 'rheol pum mlynedd' bresennol. Gofynnwyd am gymeradwyaeth y Senedd, mewn egwyddor, am gael symud ymlaen â'r gwaith sydd ei angen i ddatblygu manylion y newidiadau a'r rheoliadau cysylltiedig.

7. Croesawodd y Senedd y cynigion mewn egwyddor. Codwyd y materion canlynol: cyfyngu ar nifer y cyfleoedd ailsefyll a thrafodaethau ynghylch y newidiadau i'r rheoliadau sydd heb eu drafftio eto. Codwyd pryderon gan sawl adran ynghylch yr effaith ar lwyth gwaith y staff yn ystod yr haf, yn enwedig pan oedd y ffenestr farcio yn dynn iawn rhwng y cyfnod asesu a'r bwrdd arholi, ac a ellid symud dyddiad y bwrdd arholi atodol ac a ddylai fod terfyn ar nifer y credydau y gellid eu cymryd yn ystod y cyfnod ailsefyll. Nodwyd nad oedd cofnod bod y llwyth gwaith marcio wedi bod yn sylweddol uwch yn ystod Cofid pan ataliwyd y terfyn ar nifer y credydau dros dro, ond serch hynny gofynnwyd am ddadansoddiad o faint o asesiadau ailsefyll a fu dros nifer o flynyddoedd er mwyn ei fwydo i'r trafodaethau. Codwyd cwestiynau hefyd am ganiatáu i fyfyrwyr ailsefyll rhannau a oedd wedi'u pasio, a'r disgwyliadau ynghylch cofnodi amgylchiadau arbennig lle'r oedd myfyrwyr wedi pasio modiwl. Roedd disgwyl y byddai angen cyflwyno newidiadau i'r rheoliadau fesul cam, fel y byddai'r myfyrwyr presennol yn aros o dan y trefniadau presennol, a'r newidiadau'n cael eu cyflwyno ar gyfer myfyrwyr newydd.

8. Adroddodd y Dirprwy Is-Ganghellor fod modelu'n cael ei gynnal ar effaith y newidiadau arfaethedig ar ddata Anrhydedd Da. Yn anecdotaidd, credid nad oedd perfformiad myfyrwyr cystal yn ystod y cyfnod ailsefyll. Roedd y dadansoddiad yn heriol am amryw resymau: gallai'r mathau o asesu amrywio rhwng y semester a'r arholiadau atodol, ac roedd cyfnewid modiwlau o semester 1 i 2 yn golygu bod yr ailsefyll yn digwydd yn nes at yr amser asesu gwreiddiol mewn rhai blynyddoedd, ac mewn blynyddoedd eraill fe fyddai hyd at 8 mis yn ddiweddarach. Yn y drafodaeth fe nodwyd bod y newidiadau i'r drefn asesu a wnaed yn ystod Cofid, a symudodd oddi wrth y ddibyniaeth ar arholiadau yn y cnawd, wedi rhoi mwy o hyblygrwydd mewn rhai disgyblaethau i reoli llwythi gwaith y myfyrwyr a'r staff, ac o ganlyniad roedd yr effaith yn debygol o fod yn wahanol i wahanol adrannau. Roedd angen mwy o drafod ar ddulliau asesu, y maint o waith, a'r amseru a byddai'n ddefnyddiol edrych ar yr hyn yr oedd prifysgolion eraill yn ei wneud, er enghraifft ym maes arholiadau caeedig ar-lein ac asesu'r canlyniadau dysgu i fodiwlau a chynlluniau gradd.

9. Cytunwyd y byddai'r newidiadau a gynigiwyd yn gadarnhaol i fyfyrwyr ac yn debygol o leihau'r apeliadau academaidd. Serch hynny, pe caed gwared ar y ffi ailsefyll roedd pryderon y byddai mwy o fyfyrwyr yn dewis peidio â mynd am yr ymgais gyntaf yn ystod cyfnod asesu'r semester, ac y byddent yn gohirio eu hasesiadau tan yr haf, pe na fyddai'r gosb o gapio'r marc ar 40 (neu 50) na chost ariannol. Gallai hyn arwain at rai myfyrwyr yn ymgeisio am nifer sylweddol o gredydau yn y cyfnod ailsefyll. Roedd cais am roi ystyriaeth eto i leihau'r terfyn presennol ar ailsefyll credydau o 80 i 60, (byddai mwy na hyn yn gofyn am ail-wneud y flwyddyn) a hefyd am adolygu amseriad y cyfnod ailsefyll, yn enwedig o ystyried bod dysgu rhai rhaglenni yn dechrau yn gynt ym mis Medi (Nyrsio, Milfeddygaeth a rhai teithiau gwaith maes).

10. Nododd y Dirprwy Is-Ganghellor - ar ôl ychydig o achosion lle'r oedd myfyrwyr wedi cael cyngor anghywir am yr hyn yr oedd yn ofynnol iddynt ei gyflawni er mwyn pasio a symud ymlaen i Ran Dau - y byddai gofyn i'r Grŵp Datblygu Portffolio hefyd edrych ar y rheolau ar symud ymlaen yn Rhan Un, yn enwedig y gofyniad i gyrraedd 40% ar gyfartaledd, yn ogystal â'r gofyniad i basio cyfanswm o 100 credyd.

11. Croesawyd y Datganiad Sicrhau Ansawdd blynyddol (QAS) gan y Senedd. Adroddodd y Dirprwy Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr) hefyd fod trafodaethau cychwynnol wedi'u cynnal ar ddatblygu ffordd well o gofnodi'r berthynas waith ag Undeb Aber yng nghyd-destun Siarter y Myfyrwyr ac adroddiad blynyddol Undeb Aber, a gynhwysir bob blwyddyn yn rhan o'r Adroddiad Sicrhau Ansawdd fel tystiolaeth o weithio gyda myfyrwyr fel partneriaid. Awgrymwyd y gellid defnyddio'r arbenigedd yn y Ganolfan Ddeialog i gynorthwyo â'r trafodaethau hyn ac â llunio adroddiadau cofnodi cynnydd ar y cyd.

12. Codwyd mater y newid a gymeradwywyd eisoes i'r rheoliadau, a wnaeth ddileu'r Drws Trugaredd 2% ac eglurwyd bod y Drws Trugaredd 2% yn berthnasol i fyfyrwyr israddedig a ddechreuodd **cyn** Medi 2024, h.y. byddai carfan raddio Mehefin 2026 yn dal i fod o dan y rheoliadau hyn.

    CYMERADWYWYD

13. Cymeradwyo'r cynigion i newid y rheoliadau ailsefyll mewn egwyddor a symud i'r cam nesaf i ddrafftio manylion y rheoliadau cysylltiedig. [**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr]

    ARGYMHELLWYD

14. Argymell Datganiadau Sicrhau Ansawdd 2025 i'r Cyngor. [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg]

9. Y PWYLLGOR ANSAWDD A SAFONAU

DERBYNIWYD

Adroddiad oddi wrth y Pwyllgor Ansawdd a Safonau (SEN2526-014)

NODWYD

1. Byddai gwaith y Grŵp Datblygu Portffolio yn adrodd i'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau a Phwyllgor Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr yn ôl natur y busnes a gynhaliwyd a ofynnai am ystyriaeth a chymeradwyaeth ffurfiol gan y pwyllgor dan sylw.

2. Roedd yr adroddiadau monitro cyfadrannol cyfunol ar gyfer 2024/25 wedi dod i law, a oedd yn cynnwys y Monitro Blynyddol ar y Cynlluniau a Ddysgir drwy Gwrs ac Adroddiadau'r Arholwyr Allanol; roedd Cynlluniau Gweithredu yr ACF hefyd wedi'u cyflwyno gan yr adrannau. Gofynnwyd i'r Pwyllgor fwrw ymlaen â'r materion ar lefel y brifysgol. Roedd yr adroddiadau'n canolbwyntio ar yr elfennau eithriadol ac fe wnaethpwyd sylwadau ar faterion o bwysigrwydd arbennig, gan gynnwys llwyddiannau, arfer da ac arloesi, yn ogystal â nodi heriau a risgiau. Cafodd adroddiadau unigol ar Fonitro Blynyddol ar Gynlluniau a Ddysgir drwy Gwrs (AMTS), dadansoddiadau ACF ac Adroddiadau'r Cynlluniau Gweithredu eu cadw ar y wefan Monitro Blynyddol ar SharePoint.

3. Roedd yr adolygiad blynyddol ar yr ystadegau ar ddiarddel myfyrwyr yn y sesiwn flaenorol wedi cael ei ystyried yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor (darparwyd ffigurau'r flwyddyn gynt er cymhariaeth)
   - Y Rheoliad Academaidd ynghylch Cynnydd Academaidd: 152 (161) wedi'u cyfeirio a 10 (20) wedi'u diarddel.
   - UKVI: 1 (24) a ddiarddelwyd o ganlyniad uniongyrchol i dorri'r Polisi Monitro Ymroddiad a Phresenoldeb ar gyfer Fisâu Myfyrwyr.
   - Dyled: 16 wedi'u diarddel ar sail dyled i'r coleg heb ei thalu; dyma'r flwyddyn gyntaf i'r polisi diwygiedig ar ddyledion gael ei weithredu.

4. Roedd y dyddiadau ar gyfer arholiadau ailsefyll 2025/26 wedi'u newid yn ôl i 10–21 Awst 2026 fel y byddai digon o amser ar gyfer marcio a'r byrddau arholi ailsefyll cyn dechrau 2026/27.

5. Gofynnwyd am eglurhad ar y geiriad ynghylch y weithdrefn gymeradwyo ar gyfer datblygu a chyflwyno unrhyw ddarpariaeth ddysgu-o-bell neu ar-lein. Byddai Dirprwy Is-Ganghellor Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr yn gwirio manylion y weithdrefn i sicrhau ei bod yn glir ei bod yn ymwneud â datblygu pob darpariaeth ddysgu-o-bell newydd ac eithrio'r Adran Astudiaethau Gwybodaeth.

10. PWYLLGOR ADDYSG A PHROFIAD Y MYFYRWYR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Bwyllgor Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr (SEN2526-015)

NODWYD

Bod y Strategaeth Diogelu rhag Hunanladdiad wedi'i chymeradwyo y llynedd a bod y Polisi Atal, Ymyrraeth ac Ymateb i Hunanladdiad yn ddatblygiad o'r strategaeth honno. Mae'r Polisi yn nodi cyfrifoldebau'r Brifysgol a'r cymorth sydd ar gael drwy UUK, Step Change ac arweiniad arall yn y sector.

11. YMATEB I ADRODDIAD BLYNYDDOL UNDEB ABER

DERBYNIWYD

Adroddiad gan (SEN2526-016)

NODWYD

1. Arweiniwyd gweithdy rhyngweithiol gan Ddirprwy Is-Ganghellor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr i ystyried a oedd ffyrdd eraill o gofnodi'r ddeialog a gynhaliwyd rhwng y brifysgol ac Undeb Aber drwy gydol y flwyddyn, a gofnodwyd yn yr adroddiad blynyddol hwn. Roedd yr adroddiad yn deillio o ofyniad a osodwyd gan CCAUC gynt, sef bod Undebau Myfyrwyr yn llunio datganiad blynyddol y myfyrwyr, a fyddai'n sylfaen ar gyfer dialog â'r sefydliad, adrodd i'r myfyrwyr, ac ar gyfer bwydo i waith llunio cyflwyniad y myfyrwyr i'r adolygiad sefydliadol a gynhelir gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd.

2. Yn hanesyddol, mae'r adroddiad wedi'i ddefnyddio fel modd i ddangos i'r Corff Llywodraethu fod ganddo'r dystiolaeth briodol i fod yn hyderus bod y Brifysgol wedi bodloni, ac yn parhau i fodloni, ei rhwymedigaethau o ran y datganiadau sicrhau ansawdd a osodwyd gan CCAUC/Medr, yn enwedig datganiad 4; "*Mae'r corff llywodraethu wedi ystyried adroddiad ar y ddeialog flynyddol rhwng y sefydliad ac Undeb y Myfyrwyr neu gorff cyfatebol, wedi craffu ar ddeilliannau arolygon myfyrwyr ac wedi cadarnhau bod cynlluniau gweithredu wedi cael eu sefydlu a'u rhoi ar waith, mewn partneriaeth gyda'r corff myfyrwyr*."

3. Fel rheol, cyflwynwyd yr adroddiad gan Swyddog Sabothol Addysg y Myfyrwyr wrth iddynt ildio'r awenau ar ddiwedd y flwyddyn academaidd ar ran y tîm ehangach o swyddogion sabothol ac aelodau o staff Undeb y Myfyrwyr. Yn 2025 fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau ym mis Mai, yn lle i'r Bwrdd Academaidd, ac fe adroddwyd am hyn i'r Senedd ym mis Mehefin. Cytunwyd y dylid cyflwyno'r adroddiad yn uniongyrchol i'r Senedd yn y dyfodol ac roedd Dirprwy Is-Ganghellor Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr yn awyddus i aelodau'r Senedd gael y cyfle i gyfrannu at y trafodaethau ag Undeb Aber yn y dyfodol.

4. Roedd nifer o gwestiynau wedi'u codi i'w trafod: i) a oedd yr amseru'n cyfyngu ar ei effaith bosib? – cyflwynwyd yr adroddiad yn y gwanwyn a hynny gan y Swyddog Materion Academaidd sy'n ildio'r awenau, ac i'r Senedd ym mis Mehefin; ii) roedd yr adroddiad cryno yn trafod ystod eang o faterion gan gynnwys cyfleusterau ac adnoddau, ond nid y Senedd o reidrwydd oedd y fforwm priodol i allu ymateb i rai o'r materion hyn – sut y gellid mynd i'r afael â hyn? iii) roedd yr adroddiad yn darparu tystiolaeth rannol o'r ddeialog barhaus ag Undeb Aber yn ystod un cylch academaidd blynyddol - a oedd hyn yn gyfrif/disgrifiad digonol o'r berthynas rhwng y brifysgol a chorff y myfyrwyr? A iv), roedd y materion a nodwyd yn darparu cipolwg ar y 12 mis blaenorol ac nid oeddent o reidrwydd yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r swyddogion newydd sy'n cymryd yr awenau, sut y gellid mynd i'r afael â hyn?

5. Roedd yr adborth o'r gweithdy yn cynnwys trafodaethau ynghylch y system o gynrychiolwyr myfyrwyr ac am gofnodi llais y myfyrwyr yn ehangach, yn ogystal â chydamseru â'r swyddogion newydd ym mhob cylch academaidd. Roedd effeithiolrwydd y Pwyllgorau Ymgynghori Staff a Myfyrwyr a lefelau'r rhyngweithio ymhlith myfyrwyr a'u cynrychiolwyr yn amrywio'n sylweddol rhwng adrannau, ac yn anecdotaidd roedd hyn yn gysylltiedig â maint y garfan o fyfyrwyr - roedd y Pwyllgorau Ymgynghori yn yr adrannau mwy eu maint yn eithaf gweithgar - ac ar israddedigion roedd y ffocws yn bennaf. Roedd y rhyngweithio â chynrychiolwyr unigol yn gadarnhaol

iawn ar y cyfan ond gallai hi fod yn anodd i'r cynrychiolwyr gael adborth gan eu cyd-fyfyrwyr ac weithiau nid oedd hi'n sicr bod y materion a godwyd yn cynrychioli barn corff cyfan y myfyrwyr mewn gwirionedd. Nid oedd y niferoedd isel o ymatebion i holiaduron yn helpu yn hyn o beth, a oedd yn ei gwneud hi'n anodd dod i gasgliadau ystyrlon. Nid oedd rôl y cynrychiolwyr Cyfadrannol yn glir.

PENDERFYNWYD

6. Byddai Dirprwy Is-Ganghellor Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr yn ystyried yr adborth a gafwyd yn y trafodaethau ac yn adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf. [**GWEITHREDU**: Dirprwy Is-Ganghellor Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr]

12. CANGEN PRIFYSGOL ABERYSTWYTH Y COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Mr Jonathan Fry, Cadeirydd y Gangen (SEN2526-017)

NODWYD

Cynnwys yr adroddiad.

13. ADRODDIAD BLYNYDDOL SWYDDFA'R PARTNERIAETHAU ACADEMAIDD

DERBYNIWYD

Adroddiad Blynyddol (SEN2526-018)

NODWYD

Cynnwys yr adroddiad.

14. ADRODDIADAU GAN YR IS-BWYLLGORAU.

DERBYNIWYD

Cofnodion o'r pwyllgorau canlynol (SEN2526-019):

1. Y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi
2. Y Pwyllgor Ansawdd a Safonau
3. Pwyllgor Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr
4. Y Pwyllgor Darpariaeth Gydweithredol
5. Y Pwyllgor Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg

NODWYD

Yr adroddiadau a gafwyd o'r pwyllgorau.

15. GRADDAU ER ANRHYDEDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan (SEN2526-020)

ARGYMHELLWYD

Argymell yr enwebiadau i'r Cyngor.

---

krb 2025/12/11